**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10am Yn Nhŷ Rheidol, Aberystwyth ddydd Iau 6 Hydref 2022**

**Yn Bresennol:** Cath Smith (Cadeirydd)
Melody Chapman, Gareth Wynn Davies, John T Davies, Rhys Davies, Jack Evershed (Teams - ymadawodd â'r cyfarfod am 11am), Prys Morgan, Emlyn Roberts a Claire Williams

**Trwy Wahoddiad:** Rhys Pugh (Llywodraeth Cymru)

**Swyddogion Gweithredol yn bresennol:**
Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Rachael Madeley-Davies (Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol)
Jon Parker (Pennaeth Darpariaeth y Gadwyn Gyflenwi)
Laura Pickup (Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau)
Bryan Regan (Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol)

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu oddi ar gyfarfod blaenorol y Bwrdd:

11 Gorffennaf 2022 – Cyfarfod o'r Grŵp Cynghori ar Bolisi Masnach, Caerdydd

18 – 19 Gorffennaf 2022 - Sioe Frenhinol Cymru

26 – 27 Gorffennaf 2022 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn y cinio cyn digwyddiad y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol a'r digwyddiad ei hun yn Malvern

9 - 10 Awst 2022 – Sioe Môn

6 Medi 2022 – Fforwm Covid Llywodraeth Cymru drwy gyfrwng Teams

8 Ebrill 2022 – Diweddariad Bwrdd HCC drwy Teams

10 Medi 2022 – Sioe Brynbuga

14 Medi 2022 – Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng nghyfarfod Llywodraethiant Chwarterol Llywodraeth Cymru drwy gyfrwng Teams

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nodwyd ymddiheuriadau gan Huw Davies, Aelod o'r Bwrdd, a Maria Richards, Llywodraeth Cymru.

3. **Cyflwyniad i'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth newydd**

Ar ran y Bwrdd, croesawodd y Cadeirydd Uwch-dîm Arweinyddiaeth newydd HCC i'r cyfarfod.

Cyflwynodd aelodau'r tîm eu hunain yn ffurfiol i'r Bwrdd:

Rachael Madeley-Davies, Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol
Jon Parker, Pennaeth Darpariaeth y Gadwyn Gyflenwi
Laura Pickup, Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau
Bryan Regan, Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol

4. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau newydd.

5. **I gymeradwyo cofnodion:**

a. *Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 7 Gorffennaf 2022 (HCC 1088)*

b. *Cyfarfod diweddaru'r Bwrdd drwy Teams a gynhaliwyd ddydd Iau 8 Medi 2022 (HCC 1089)*

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfodydd uchod wedi eu darllen, cawsant eu derbyn gan y Bwrdd a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

6. **Materion yn codi o Eitemau 5a a 5b uchod**

5a – Dydd Iau 7 Gorffennaf 2022 - Cyfarfod Bwrdd

*Adolygiad Diwedd-Blwyddyn o Gynllun Gweithredol HCC 2021 / 2022*

Câi'r Dangosyddion Perfformiad a ganlyn eu cadw dan adolygiad gan y Pwyllgor Gwaith a châi'r Bwrdd ei ddiweddaru pan fyddai gwybodaeth a / neu ddata ar gael:

- Mwy o gig coch Cymru yn cael ei brynu gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Tystiolaeth drwy wybodaeth gan wasanaethau caffael cyrff cyhoeddus
- Llai o wastraff yn cael ei gynhyrchu gan broseswyr cig coch Cymru.

**Gweithredu Parhaus: Prif Weithredwr (Swyddog Gweithredol Cig Coch)**

*Cynllun Busnes HCC 2022 / 2026 a Chynllun Gweithredol HCC 2022 / 2023 Diwygiedig*

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Gweinidog wedi cymeradwyo'r dogfennau diwygiedig

*Diweddariad am Arian y Rhaglen Datblygu Cig Coch*

Hysbyswyd y Bwrdd bod yr arian ar gyfer hawliadau grant Rhaglen Datblygu Cig Coch HCC ar gyfer y cyfnod Gorffennaf a Medi 2021 wedi dod i law.

7. **Adroddiadau HCC**

a. *Gweithgareddau (HCC 1090)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafodd gweithgareddau allweddol HCC eu hamlygu gan y Swyddogion Gweithredol.

- Cafwyd ymateb cadarnhaol i arolwg ar-lein Bwriadau Ffermwyr HCC gyda'r nod o gasglu data i ddeall ymhellach effeithiau presennol costau cynyddol mewnbwn ffermydd ar fusnesau fferm. Hyd yn hyn cafwyd 400 o ymatebion. Câi canlyniadau eu bwydo nôl i'r Bwrdd maes o law.

  **Gweithredu: Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol**

- Roedd trefniadau ar y gweill ar gyfer presenoldeb HCC yn Ffair Fasnach SIAL, Paris 15 – 19 Hydref 2022. Hwn oedd y digwyddiad masnach rhyngwladol cyntaf i HCC ei fynychu ers dechrau pandemig Covid-19 yn 2019.

b. *I dderbyn diweddariad ynghylch trefniadau ar gyfer cynhadledd HCC – dydd Iau 10 Tachwedd 2022*

, Cafwyd crynodeb o'r uchod gan y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau.

Roedd trefniadau ar y gweill ar gyfer y gynhadledd a fyddai unwaith eto yn cael ei chynnal yng Nghanolfan yr Aelodau, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd. Byddai'r gynhadledd yn cychwyn o 3.20pm a gwahoddwyd y Bwrdd i gyrraedd erbyn 2pm ar gyfer sesiwn briffio cyn y gynhadledd. Byddai themâu'r gynhadledd yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd a'r Ffordd Gymreig yng nghyd-destun masnach a diogelwch bwyd byd-eang.

Byddai sesiwn holi-ac-ateb i'r Bwrdd yn dilyn anerchiad y Cadeirydd gyda'r cyfle i gynrychiolwyr ofyn cwestiynau ar gynnig HCC i gynyddu cyfraddau'r Ardoll o 1 Ebrill 2023.

Y siaradwyr a gadarnhawyd oedd David Henig, Cyfarwyddwr Prosiect Polisi Masnach y DG yn y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Economi Wleidyddol Ryngwladol a'r Athro John Gilliland, Devenish Nutrition, Prifysgol Queens Belfast.

Byddai'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth hefyd yn rhoi cyfres o gyflwyniadau ar y Ffordd Gymreig, Datblygu Brand Byd-eang a Chefnogi'r Gadwyn Gyflenwi (yn seiliedig ar y Rhaglen Datblygu Cig Coch).

Câi'r Bwrdd ei ddiweddaru maes o law ynghylch y trefniadau.

**Gweithredu: Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau**

c. *Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 1091)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

d. *Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 30 Mehefin 2022 (HCC 1092)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol.

e. *Digwyddiadau i ddod (HCC 1093)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

8. **<u>I dderbyn diweddariad am y broses ymgynghori ynghylch y bwriad i gynyddu'r ardoll (HCC 1094)</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen ac fe'i cyflwynwyd gan y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol.

Cynigiwyd y canlynol gan y Pwyllgor Gwaith:

**Ymgynghoriad**

Roedd HCC yn bwriadu dechrau ymgynghoriad 8 wythnos ar 24 Hydref 2022 (yn dod i ben ar 16 Rhagfyr 2022), i fesur barn y diwydiant am y cynnig i gysylltu cyfraddau Ardoll â chwyddiant, gan ddefnyddio traciwr, i sicrhau bod incwm yr Ardoll yn cael ei gynnal mewn termau real. Argymhellwyd bod y cyfraddau Ardoll bob blwyddyn ariannol yn adlewyrchu'r chwyddiant blynyddol cyfartalog yn ystod y flwyddyn galendr flaenorol, yn unol âr hyn a fesurwyd gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPIH). Byddai'r system hon yn cael ei ddefnyddio i bennu cyfraddau Ardoll o 1 Ebrill 2023 ymlaen.

- Byddai arolwg ar-lein ar gael ar wefan HCC am gyfnod o 8 wythnos o 24 Hydref 2022 tan 16 Rhagfyr 2022.

- Byddai cyfarfod o randdeiliaid y diwydiant (Grŵp Cyswllt y Diwydiant HCC) yn cael ei gynnal ar 27 Hydref 2022.

- Cynigwyd cynnal pum cyfarfod agored ledled Cymru rhwng 31 Hydref a 25 Tachwedd 2022 yn yr ardaloedd a ganlyn:

  - Gwynedd
  - Sir Ddinbych
  - Llanfair-ym-Muallt (Cynhadledd HCC: 10 Tachwedd 2022)
  - Sir Gaerfyrddin
  - Sir Fynwy

  Argymhelliad i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

  Yn dilyn dyddiad cau'r trafodaethau / ymgynghoriad (16 Rhagfyr 2022) byddai crynodeb ar adborth y diwydiant yn cael ei baratoi a'i rannu gyda'r Bwrdd yn y cyfarfod ar 12 Ionawr 2023. Yna byddai argymhelliad y Bwrdd ar gyfraddau'r dyfodol yn cael ei wneud i'r Gweinidog Materion Gwledig.

  Yn amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidog, byddai'r diwydiant yn cael ei hysbysu am gyfraddau Ardoll 2023 / 2024 ar 1 Mawrth 2023 (gan roi rhybudd o fis am unrhyw newid i fusnesau).

  Byddai unrhyw newid yng nghyfraddau'r Ardoll yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023.

  Yn dilyn trafodaeth bord gron, cytunodd y Bwrdd i'r broses ymgynghori / ymgysylltu arfaethedig a'r amserlen. Fodd bynnag, teimlwyd bod diffyg gwybodaeth ymhlith rhanddeiliaid am gylch gorchwyl HCC a'r gweithgareddau y mae'n eu cyflawni ar ran y diwydiant ac roedd angen gwneud gwaith ar hyn.

Cytunodd y Bwrdd y byddai angen i'r Pwyllgor Gwaith gyflwyno achos sylweddol dros y cynnydd arfaethedig a chael trafodaethau agored a didwyll gyda rhanddeiliaid. Cafodd sylwadau eu hystyried gan y Pwyllgor Gwaith a byddai gwaith pellach yn cael ei wneud cyn y cyfarfodydd ymgysylltu a drefnwyd.

9. **Pwyllgorau HCC**

Y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata

a. *I fabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata a gynhaliwyd ddydd Mawrth 28 Mehefin 2022 (HCC 1095)*

Mabwysiadwyd yr uchod gan y Bwrdd.

Y Pwyllgor Cyfathrebu

b. *I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Iau 8 Medi 2022 (HCC 1096)*

Mabwysiadwyd yr uchod gan y Bwrdd.

10. **Unrhyw fater arall**

Gwerthuso Bwrdd HCC

Dywedodd y Cadeirydd fod angen gwneud yr uchod dros yr wythnosau nesaf ac y cysylltir â'r Bwrdd i drefnu cyfarfodydd.

11. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod**

Nodwyd y byddai'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 2 Tachwedd 2022 yn cael ei aildrefnu ar gyfer canol mis Tachwedd 2022.

**2023**

Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 12 Ionawr 2023.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**